*Cyngor Ieuenctid Cymru – Neges*

# GWAITH IEUENCTID AC ATAL TROSEDDU
# (Canllawiau Polisi)

*Liam Kealy, Uwch Swyddog Datblygu, Cyngor Ieuenctid Cymru*

## CYNNWYS

Diolchiadau

Crynodeb

Cyflwyniad

Polisi ac Ymarfer: Crynodeb o'r Sefyllfa Gyfredol

Troseddau Ieuenctid: Cefndir Ystadegol

Materion sy'n Codi o'r Ystadegau

Y Gwasanaeth Ieuenctid yng Nghymru

Y Berthynas Rhwng Gwaith Ieuenctid ac Atal Troseddu

Pobl Ifainc "mewn Perygl" neu "mewn Angen"

Ffordd Ymlaen

Gwaith Aml-Asiantaethol

Targedu Gwaith Ieuenctid

Cynnwys Pobl Ifanc

Llyfryddiaeth

**DIOLCHIADAU**

Hoffai Cyngor Ieuenctid Cymru ddiolch i'r bobl a'r mudiadau canlynol am eu cymorth wrth baratoi'r ddogfen hon ac wrth drefnu Cynhadledd Gwaith Ieuenctid ac Atal Troseddu.

| | |
|---|---|
| Liam Kealy | Cyngor Ieuenctid Cymru |
| Keith Towler | NACRO |
| Sandra Skinner | Cyngor Gwasanaethau Ieuenctid Gwirfoddol Cymru |
| Alun Griffiths | Adran Addysg Gymunedol Gwent |
| Mike Greenaway | Cymdeithas Addysg Bellach a Gwasanaeth Ieuenctid Cymru |
| Ron Jones | Cymdeithas Gweithwyr Ieuenctid a Chymuned Amser Llawn Cymru |
| Gareth Richards | Cronfa Achub y Plant |
| Les Jones | Cymdeithas Cydgysylltwyr Diogelwch Cymunedol Cymru |

Yn ogystal, hoffai Cyngor Ieuenctid Cymru ddiolch i'r unigolion a'r sefydliadau hynny a gyfrannodd tuag at y broses ymgynghori a thuag at y Gynhadledd Gwaith Ieuenctid ac Atal Troseddau.

## CRYNODEB

Bydd y papur hwn yn dadlau fod gwasanaeth ieuenctid ag adnoddau digonol, a all fabwysiadu amrediad o ddulliau gweithredu, o fudd cynhenid i gymdeithas. Gall gwaith ieuenctid gynnig profiadau cadarnhaol sy'n wynebu anghenion a dyheadau pobl ifainc ac yn eu galluogi i ddatblygu fel dinasyddion cyfrifol ac i gyfrannu'n gadarnhaol at fywyd eu cymunedau.

Er nad yw atal troseddu erioed wedi bod yn brif gymhelliad i waith ieuenctid, mae ganddo gyfraniad pwysig i'w wneud yn y broses hon. Bydd y papur yma'n cyfeirio at adroddiad diweddar gan Ymddiriedolaeth y Tywysog a seiliwyd ar ymchwil a wnaed gan Coopers and Lybrand, sy'n arddangos y berthynas rhwng gwaith ieuenctid ac atal troseddu gan ieuenctid. (Coopers and Lybrand: 'Preventative Strategy for Young People in Trouble' 1994)

Mae'r ddogfen yn cyflwyno'r ddadl y gall cynlluniau a ddatblygwyd i weithio gyda throseddwyr ifainc gael eu defnyddio ar yr un pryd i gynnig amrediad eang o wasanaethau ar gyfer pobl ifainc eraill yn y gymuned ehangach. Byddai hyn yn gyfrwng i ailgyfeirio rhai pobl ifainc oddi wrth sefyllfaoedd neu ymddygiad a allai eu harwain i gyflawni troseddau.

Mae'r ddogfen yn gwneud yr argymhellion canlynol:

1. Dylai'r gwasanaeth ieuenctid feddu ar adnoddau digonol i fabwysiadu amrediad o ddulliau gweithredu sy'n wynebu anghenion a dyheadau pobl ifainc yn eu hardal ac i fynd i'r afael â'r materion sy'n effeithio ar eu bywydau. Gall hyn gynnwys targedu gwaith ar gymunedau penodol neu grwpiau o bobl ifainc, neu ar faterion penodol. Felly, gellir clustnodi a rhoi cymorth i'r cymunedau hynny lle mae pobl ifainc mewn perygl posib o droseddu drwy'r cyfleoedd a gynigir gan waith ieuenctid.

   Dylid seilio penderfyniadau o'r fath ar ymchwil a gefnogir gan amrediad o ystadegau a gwybodaeth arall sy'n berthnasol i bobl ifainc, ac arolwg o wasanaethau ar gyfer pobl ifainc.

2. Dylai gwasanaethau ar gyfer pobl ifainc fabwysiadu'r nodweddion canlynol:

   (i) Dylid eu seilio ar setiau o fwriadau ac amcanion a ddiffiniwyd yn glir a dylent gael eu cysylltu â chynlluniau gwaith blynyddol gyda ffordd o fonitro'r drefn o gyflwyno'r gwasanaeth a gwerthuso ei effeithiolrwydd.

   (ii) Dylid cael digon o adnoddau i ddarparu ar gyfer proses ddwys, hir-dymor. Os yw Gwaith Ieuenctid i wella neu newid ymddygiad a chymhellion pobl ifainc, yna rhaid wrth ymrwymiad cadarn a chynaledig.

   (iii) Rhaid iddynt gynnig sialens a bod yn addysgiadol. Sialens yn yr

ystyr y dylai gweithgareddau fod yn ddeniadol i bobl ifainc a chynnal eu sylw ac yn addysgiadol yn yr ystyr bod pobl ifainc yn medru meithrin y sgiliau, y wybodaeth a'r gwerthoedd personol i'w galluogi i reoli eu bywydau eu hunain.

(iv) Rhaid iddynt gynnwys pobl ifainc wrth gynllunio a rheoli mentrau a dylai datblygiad y gwasanaeth weithio tuag at y nod hwn.

3. Dylai awurdodau lleol sefydlu grwp aml-asiantaethol i ddatblygu polisïau integredig sy'n wynebu anghenion pobl ifainc. Dylai'r grwp yma gael ei gyfansoddi o uwchswyddogion gwasanaethau sy'n effeithio ar fywydau pobl ifainc, a dylai gynnwys pobl ifainc. Er enghraifft, y Gwasanaeth Ieuenctid, Gwasanaethau Cymdeithasol, Diogelwch Cymunedol, Tai, Hamdden, Iechyd, Profianaeth, Addysg, yr Heddlu a'r sector gwirfoddol.

Byddai grwpiau aml-asiantaethol yn argymell polisi i'r pwyllgorau priodol.

## 1.0 CYFLWYNIAD

1.1 Bwriad y ddogfen hon yw darparu arweiniad i awdurdodau lleol a mudiadau eraill sydd â chyfrifoldeb dros ddatblygu gwasanaethau i bobl ifainc, fel y gallant ddatblygu eu dealltwriaeth o'r amryw faterion sy'n codi o bryderon yn ymwneud â phobl ifainc a throseddu.

1.2 Mae'r papur yn tanlinellu'r ddeuoliaeth sy'n bodoli yn y polisi a'r ddarpariaeth bresennol. Ar yr un llaw, ceir pwyslais cynyddol ar ddatblygiad y cynlluniau sy'n canolbwyntio ar droseddwyr ifainc a'u hymddygiad. Lleolwyd y cynlluniau hyn yn aml yn y gymuned ac yn fynych, meddant ar lawer o adnoddau. Ar y llaw arall, torrir ar adnoddau gwasanaethau cyffredinol a fwriedir i hyrwyddo datblygiad personol a chymdeithasol pobl ifainc. Mae'r potensial yn y fath wasanaethau, sydd hefyd wedi eu lleoli yn y gymuned, i ailgyfeirio pobl ifainc oddi wrth sefyllfaoedd neu ymddygiad a allai arwain at droseddu drwy ddarparu amrediad eang o adnoddau sy'n cynnig profiadau cadarnhaol.

## 2.0 POLISI AC YMARFER: CRYNODEB O'R SEFYLLFA GYFREDOL

2.1 Wedi cyfnod o 10 i 15 mlynedd lle pwysleisiai'r polisi bwysigrwydd ailgyfeirio pobl ifainc i ffwrdd oddi wrth y sustem cyfiawnder troseddol ffurfiol (ymagwedd a ategir gan Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 1991 yn ogystal â Deddf Plant 1989), cafwyd symudiad clir i'r cyfeiriad arall dros y ddwy flynedd ddiwethaf.

2.2 Cafwyd nifer o gamau sy'n uno i greu hinsawdd sy'n amlwg yn llymach o fewn y sustem gyfiawnder ieuenctid. Dosbarthwyd arweiniad adolygedig ar rybuddio i'r Heddlu er mwyn lleihau'r gofyn am rybuddio mynych; mae Safonau Cenedlaethol adolygedig ar gyfer goruchwylio troseddwyr yn y Gymuned wedi pwysleisio pwysigrwydd cosb, a rhoddwyd cyfres o bwerau carcharu newydd ac ehangach i'r llysoedd gan Ddeddf Cyfiawnder Troseddol a Threfn Gyhoeddus 1994.

2.3 Nid yw'r newidiadau mewn deddfwriaeth yn dangos fawr ddim arwydd o arafu. Mae papur gwyrdd y Llywodraeth 'Strengthening Punishment in the Community' (1995) a gyhoeddwyd yn ddiweddar yn dadlau dros ddedfryd gymunedol unigol, lle câi'r llys a fyddai'n dedfrydu 'hawl dros holl gynhwysion gorchmynion cymunedol sy'n bodoli ar hyn o bryd, naill ai'n unigol neu fel cyfuniad.' Byddai'r ddedfryd gymunedol unigol yn cymryd lle gorchmynion cymunedol sy'n bodoli'n barod ac yn diddymu pob un ohonynt ac eithrio, o bosib, y gorchmynion goruchwylio a'r gorchymyn canolfan ymbresenoli.

2.4 Canlyniad i'r symud yma yn y polisi yw datblygiad cynlluniau sy'n canolbwyntio ar droseddwyr ifainc a'u hymddygiad. Cynhwysa

enghreifftiau o'r math yma o waith:

- Raglenni goruchwylio yn y gymuned a gynlluniwyd yn unigol.
- Cynlluniau ysgogol.
- Grwpiau camddefnyddio alcohol/cyffuriau.
- Cynlluniau cyfryngu ac adfer.
- Prosiectau gwasanaeth cymunedol.
- Cyrsiau cynghori ar gyfer pobl ifainc sy'n camdrin yn rhywiol.

2.5 Hefyd, yng Nghymru, fel yn Lloegr, mae lletyau diogel ychwanegol yn cael eu datblygu i gwrdd ag anghenion Deddf Cyfiawnder Troseddol 1991, sy'n darparu ar gyfer diddymu remandio rhai 15 i 16 mlwydd oed i garchar tra'n aros eu prawf, maes o law. Ar hyn o bryd, mae nifer y bobl ifainc ar remand mewn carchar, sy'n ddieuog nes y profir fel arall, i'w weld yn codi. Mae'r ffigurau diweddaraf am rai 15 i 16 mlwydd oed ar remand yng ngharchar yng Nghymru yn dangos cynnydd o 25% yn y cyfnod rhwng Ebrill 1af 1992 a Medi 30ain 1994. (A Crisis in Custody, 1995, ACOP a NACRO).

2.6 Mae datblygu darpariaeth effeithiol o ddedfrydau cymunedol yn bwysig iawn i bobl ifainc sy'n troseddu, ac i'w dioddefwyr o'u hachos a'r gymuned ehangach, gan fod mesurau o'r fath i'w gweld yn fwy cynhyrchiol ac yn fwy tebyg o atal aildroseddu na chynnydd yn y defnydd o garchar.

## 3.0 TROSEDDAU IEUENCTID: CEFNDIR YSTADEGOL

### *3.1 Pobl ifainc yn troseddu*

- Troseddau ieuenctid yw tua 45% o'r troseddau sy'n arwain at euogfarn neu rybudd ffurfiol.

- Mae'r rhan fwyaf o droseddau a gofnodwyd, y gwyddys iddynt gael eu cyflawni gan bobl ifainc, yn droseddau eiddo.

- Ym 1992, roedd 80% o'r bobl ifainc a rybuddiwyd neu a gafwyd yn euog o droseddau yn wryw, er bod peth data ymchwil diweddar wedi awgrymu fod graddfeydd troseddu dynion ifainc a merched ifainc yn llawer agosach at ei gilydd.

- Mae oedran troseddwyr y gwyddys pwy ydynt yn cyrraedd uchafbwynt i ddynion ifainc yn 17/18 oed ac i ferched ifainc, yn 14/15 oed.

- Mae ystadegau swyddogol yn dangos gostyngiad diweddar yn nifer y troseddwyr ifainc (o 17%). Er hynny, nid yw'n glir a yw'r nifer o droseddau ieuenctid wedi newid.

  (Gwybodaeth o Coopers and Lybrand: "Preventative Strategy for Young People in Trouble")

- “Rhywbeth a wneir yn bennaf gan ddynion ifainc yw troseddu, a hynny i raddau helaeth mewn cyfnod cymharol fyr ym mywyd person” (Y Swyddfa Gartref: ‘Information on Criminal Justice System in England and Wales 1993’. O Gynhadledd Sefydlog Prif Swyddogion Ieuenctid a Chymuned: Gwasanaeth Ieuenctid a Throseddu Ieuenctid).

- Er hynny, mae Crime Concern yn nodi fod 5% o droseddwyr ifainc yn cyflawni 50% o’r holl droseddau sy’n cael eu datrys. Mae hyn yn awgrymu mai lleiafrif o bobl ifainc sy’n ymwneud âgweithgaredd troseddol.

### *3.2 Pobl ifainc sy’n dioddef o achos troseddau*

- Dynion ifainc sy’n dioddef amlaf oherwydd trais. (Arolwg Troseddau Prydain 1992).

- Tybir bod 5% yn dioddef camdrin rhywiol neu gorfforol.

- Canfu arolwg diweddar fod 60% o ferched ifainc yn bryderus iawn ynglyn â harasio ac ymosod rhywiol - nid adroddir am 60% o’r ymosodiadau sy’n digwydd.

3.3 Nid adroddir am gyfran helaeth o broblemau eraill fel camdrin plant, bwlio a harasio rhywiol neu ragfarn hiliol yn erbyn plant, ond mae ffigurau’n awgrymu fod:

- 68% o blant yn dioddef bwlio ar ryw adeg yn ystod eu gyrfa ysgol.

- 10% o blant ysgol gynradd/canolradd yn cael eu bwlio bob wythnos.

## 4.0 MATERION SY’N CODI O’R YSTADEGAU

4.1 Dynion ifainc sydd yn troseddu yn bennaf. Er hynny, bydd i adnoddau a neilltuir ar gyfer gwaith gyda merched ifainc hefyd effaith er atal troseddau.

4.2 Mae’r ffaith fod troseddwyr gwryw a benyw yn fwy tueddol o droseddu mewn oedran arbennig yn awgrymu fod pobl ifainc yn ‘tyfu allan’ o ymddygiad troseddol ac nad yw’r mwyafrif yn droseddwyr profiadol. Felly gall darparu amrediad eang o weithgareddau a phrofiadau cadarnhaol gan wasanaeth ieuenctid dros gyfnod byr ym mywydau pobl ifainc fod yn fodd effeithiol o ailgyfeirio pobl ifainc rhag troseddu. (Gweler Rutherford A. 1992 Growing out of Crime - The New Era).

4.3 Pa ymateb sydd ei angen i gwrdd ag anghenion pobl ifainc sydd, neu a allai fod, yn dioddef troseddau, i’w galluogi i ddatblygu’r sgiliau, y wybodaeth a’r gwerthoedd personol i allu delio’n gadarnhaol â’r

profiadau hyn?

4.4 Mae angen i awdurdod lleol ystyried y materion hyn pan mae'n cynllunio gwasanaethau yn strategol ar gyfer pobl ifainc. Dylid cynllunio gwasanaethau i gwrdd ag anghenion y grwp ehangach o bobl ifainc yn ogystal â'r rhai sy'n troseddu. Byddai ymagwedd o'r fath yn gweithredu i ailgyfeirio'r bobl ifainc hynny sydd ar ymylon ymddygiad troseddol.

## 5.0 Y GWASANAETH IEUENCTID YNG NGHYMRU

5.1 Mae'r Gwasanaeth Ieuenctid yng Nghymru yn bartneriaeth rhwng mudiadau ieuenctid statudol a gwirfoddol sy'n cyfuno i ddarparu ystod amrywiol o wasanaethau i bobl ifainc.

5.2 Mae Awdurdodau Addysg Lleol yn darparu gwasanaethau i bobl ifainc drwy rwydwaith o glybiau ieuenctid, cynlluniau a threfniadau gwaith ieuenctid gwahanedig. Seilir y rhaglenni'n aml ar weithgareddau sy'n cynnig sialens i bobl ifainc, yn ehangu eu gorwelion ac yn cynyddu eu sgiliau a'u gwybodaeth.

5.2.1 Mae awdurdodau lleol hefyd yn cynnig amrywiaeth o gyfleusterau drwy gyfrwng hamdden; gallai cydweithio'n agosach gyda'r gwasanaeth ieuenctid beri bod yr awdurdodau lleol yn datblygu darpariaeth fwy addas a mwy cost effeithiol ar gyfer pobl ifanc.

5.3 Mae mudiadau ieuenctid gwirfoddol yn aml yn fwy penodol yn eu gweithgareddau a'u ffocws ac maent yn cynnwys mudiadau mewn iwnifform, Clybiau Ffermwyr Ifainc, Urdd Gobaith Cymru, YMCA ac ati. Er hynny, mae'r gwasanaeth ieuenctid yn bartneriaeth ffrwythlon yn yr ystyr ei fod yn sicrhau bod pobl ifainc yn gallu dewis o amrywiaeth o weithgareddau a ystyrir yn addas i'w hanghenion.

5.4 Mae Coopers and Lybrand yn nodi mai'r sector statudol sydd gan amlaf yn ymwneud â materion sydd ynghlwm wrth atal troseddu, fel arfer drwy waith prosiect neu waith gwahanedig.

5.5 Mae'r gwasanaeth ieuenctid yn agored i bobl ifainc o fewn yr ystod oedran penodol 11-25, ond mae'n rhoi blaenoriaeth i'r cyfnod pan newidir i fod yn oedolyn, yn y grwp oedran 13-19. Dylid nodi bod hyn yn cydfynd â'r ystadegau perthnasol i'r prif oedran troseddu.

5.6 Mae Coopers and Lybrand yn nodi fod mudiadau eraill hefyd yn mabwysiadu dulliau gwaith ieuenctid yn y gwasanaethau a ddarperir ganddynt. Er enghraifft, asiantaethau cyffuriau, adrannau tai, gwasanaethau cymdeithasol a chyrff gwirfoddol eraill nad gwaith ieuenctid yw eu prif genhadaeth. Mae hyn yn cynyddu'r potensial i waith rhyng-asiantaethol wneud cyfraniad sylweddol ac effeithiol i fywydau bywyd pobl ifainc, drwy fabwysiadu dull cydlynol o gwrdd â'u hanghenion.

5.7 Mae'n bwysig cydnabod rôl y gwasanaethau cyffredinol ar gyfer pobl ifainc yn y gwaith o wella ansawdd bywydau pobl ifainc, sydd yn cael effaith yn ei dro ar raddfa troseddu ieuenctid. Mae angen cydnabod pwysigrwydd beth y mae gwasanaeth ieuenctid yn ei wneud, ac yn gallu ei gyflawni, ac mae angen digon o adnoddau i'r perwyl hwn.

5.8 Mae gwasanaeth ieuenctid ag adnoddau digonol a all fabwysiadu amrediad o ddulliau gweithredu o fudd cynhenid i gymdeithas. Gall gwaith ieuenctid gynnig profiadau cadarnhaol sy'n wynebu anghenion a dyheadau pobl ifainc ac yn eu galluogi i ddatblygu fel dinasyddion cyfrifol i allu cyfrannu'n gadarnhaol i fywyd eu cymunedau.

5.9 Er nad yw atal troseddu erioed wedi bod yn brif gymhelliad i waith ieuenctid, mae ganddo gyfraniad pwysig i'w wneud yn y broses hon. Bydd y papur yma'n cyfeirio at adroddiad diweddar gan Ymddiriedolaeth y Tywysog a seiliwyd ar ymchwil a wnaed gan Coopers and Lybrand, sy'n arddangos y berthynas rhwng gwaith ieuenctid ac atal troseddu ieuenctid. (Coopers and Lybrand: 'Preventative Strategy for Young People in Trouble' 1994)

## 6.0 Y BERTHYNAS RHWNG GWAITH IEUENCTID AC ATAL TROSEDDU

6.1 Mae gwaith ieuenctid yn anelu at alluogi pobl ifainc i ennill mwy o reolaeth dros eu bywydau ac i gyfrannu at les eraill drwy ddatblygu eu sgiliau, eu gwybodaeth a'u gwerthoedd personol. Nid pwrpas a phroses gwaith ieuenctid ynddo'i hun yw gostwng lefel troseddu ieuenctid na newid ymddygiad pobl ifainc sy'n troseddu. Nid asiantaeth atal troseddu yw'r gwasanaeth ieuenctid.

6.2 Er hynny, o ystyried ei rôl wrth gyfrannu at ddatblygiad pobl ifainc, mae'n bartner gwerthfawr yn y broses atal troseddu. Mae'r gweithgareddau sy'n hyrwyddo proses gwaith ieuenctid yn ailgyfeirio pobl ifainc oddi wrth sefyllfaoedd neu ymddygiad sy'n eu gosod mewn perygl o droseddu. Mae'r astudiaeth ddiweddar gan Coopers and Lybrand yn cadarnhau hyn.

*"Ychydig iawn o dystiolaeth wrthrychol sydd yna i arddangos perthynas achosol rhwng gwaith ieuenctid ac ailgyfeirio pobl ifainc rhag troseddu. Er hynny, mae yna lawer o dystiolaeth oddrychol sy'n ein hargyhoeddi fod yna gysylltiad. Ni fu'n bosib dyfalu cryfder y cysylltiad hwn, ond mae'n ymddangos gryfaf mewn gwaith ieuenctid a dargedir yn ofalus at bobl ifainc 'mewn perygl', ac mae iddo amcanion a ddiffiniwyd yn eglur, yn cynnig proses ddwys a hir-dymor ac yn darparu profiad addysgiadol*

*a sialens."*

(Coopers and Lybrand:
'Preventative Strategy for Young People in Trouble')

6.3 Mae'r un adroddiad yn tanlinellu'r gwahaniaeth rhwng Gwaith Atal Troseddu Cychwynnol ac Eilaidd.

Mae gwaith atal troseddu cychwynnol yn ceisio newid amgylchedd pobl ifainc er mwyn gostwng y cyfle iddynt fod yn rhan o weithgareddau a allai arwain at droseddu.

Mae Gwaith Atal Troseddu Eilaidd yn ceisio newid ymddygiad a chymhellion pobl ifainc.

6.4 Mae'n amlwg o'r disgrifiad o bwrpasau a phrosesau gwaith ieuenctid y gall gwaith ieuenctid gyfrannu at Atal Troseddu Cychwynnol ac, yn arbennig, at Atal Troseddu Eilaidd.

6.5 Mae darparu amrediad o brofiadau addysgiadol a rhai sy'n cynnig sialens, drwy weithgareddau a chymorth proffesiynol, yn fodd o ailgyfeirio pobl ifainc oddi wrth weithgareddau a allai arwain at droseddu ac mae'n amlwg yn cyfrannu at waith atal troseddu cychwynnol.

6.6 Mae dibenion gwaith ieuenctid yn ymwneud â galluogi pobl ifainc i ddatblygu gwybodaeth, sgiliau a gwerthoedd personol, yw ceisio gwella neu newid ymddygiad a chymhellion pobl ifainc. Mae'n enghraifft wych o atal eilaidd.

## 7.0 POBL IFAINC: "MEWN PERYGL" NEU "MEWN ANGEN"?

7.1 Mae Coopers and Lybrand yn awgrymu mai'r bobl ifainc sydd "mewn perygl" o droseddu yw'r unigolion hynny sydd fwyaf mewn angen; fel a nodwyd gan adrannau gwasanaethau cymdeithasol, ysgolion, yr heddlu neu'r gwasanaeth prawf. Felly, mae'n addas ystyried y cysyniad o bobl ifainc "mewn angen". Mae Deddf Plant 1989 yn darparu diffiniad clir o'r term "mewn angen" ac mae'n cynnwys pobl ifainc i fyny at, ac yn cynnwys, 18 oed.

7.2 Ystyrir bod Plentyn "mewn angen" os yw ef/hi yn annhebyg o gyrraedd, neu gynnal, neu gael cyfle i gyrraedd neu gynnal, safon rhesymol o iechyd neu ddatblygiad heb i'r awdurdod lleol ddarparu gwasanaethau. Mae'r Ddeddf Plant yn darparu arweiniad i awdurdodau lleol yn ymwneud â'r amryw ddangosyddion y medrant eu defnyddio i asesu pobl ifainc mewn angen.

7.3 Mae'r Ddeddf Plant yn ei gwneud hi'n ddyletswydd ar awdurdodau lleol i hyrwyddo lles pobl ifainc a phlant mewn angen drwy ddarparu ystod a lefel o wasanaethau sy'n addas i'w hanghenion. Yn benodol, mae'r ddeddf yn ei gwneud hi'n ddyletswydd ar awdurdodau lleol i wneud trefniadau ar gyfer atal troseddu gan bobl ifainc ac osgoi gorfod erlyn troseddwyr ifainc yn eu hardaloedd.

7.4 Mae Cytundeb y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn darparu arweiniad clir ar yr amrediad o wasanaethau sy'n hyrwyddo lles pobl ifainc a phlant ac sydd o'r budd gorau iddynt.

7.5 Mae Erthygl 40 yn darparu arweiniad sy'n datgan fod plentyn sy'n gwrthdaro yn erbyn y gyfraith â'r hawl i driniaeth sy'n hyrwyddo ymdeimlad y plentyn o'i urddas a'i werth, yn ystyried oedran y plentyn ac yn anelu at ei atgyfannu o fewn y gymdeithas.

7.6 Mae'r paragraffau blaenorol yn rhoi diffiniadau o angen ond mae lefelau o angen cymdeithasol yn effeithio ar ansawdd bywyd pobl ifainc a byddai hefyd yn effeithio ar lefelau troseddu. Gall dangosyddion angen cymdeithasol gynnwys:

- Nifer y cyfleoedd gwaith sefydlog sydd ar gael.
- Safon a chaffaeladwyedd tai.
- Amrywiaeth a math o berthynas a chymorth teuluol.
- Amrywiaeth a lefel y gwasanaethau sydd ar gael i gymunedau lleol.
- Lefel a natur camddefnyddio cyffuriau.

7.7 Gall proses gwaith ieuenctid ymarfogi pobl ifainc â'r sgiliau, y wybodaeth a'r gwerthoedd personol ar gyfer mynd i'r afael â, a datrys y materion hyn. Mae Gweithwyr Ieuenctid hefyd yn datblygu mentrau ynglyn â materion sy'n effeithio ar fywydau pobl ifainc yn cynnwys tai, diweithdra, iechyd, tlodi a throseddu.

7.8 Mae'n bwysig nodi y gall gwaith aml-asiantaethol effeithiol a ddaw ag asiantaethau sy'n gwrthsefyll y math o faterion a nodwyd uchod at ei gilydd hefyd effeithio'n arwyddocaol ar ansawdd bywyd pobl ifainc.

## 8.0 FFORDD YMLAEN

8.1 Mae'n amlwg wrth y drafodaeth hon fod gan y gwasanaeth ieuenctid rôl bwysig i'w chwarae yn y broses atal troseddu, yn ogystal â'r cyfraniad gwerthfawr mae'n ei wneud i ddatblygiad personol a chymdeithasol pobl ifainc.

8.2 Er mwyn galluogi cyflawni'r amcanion hyn, argymhellwn y canlynol:

Dylai'r gwasanaeth ieuenctid feddu ar adnoddau digonol i fabwysiadu amrediad o ddulliau gweithredu sy'n ymdrin ag anghenion a dyheadau pobl ifainc yn eu hardal ac i fynd i'r afael â'r materion sy'n effeithio ar eu bywydau. Gall hyn gynnwys targedu gwaith ar gymunedau penodol neu grwpiau o bobl ifainc, neu ar faterion penodol.

Felly, gellir clustnodi a rhoi cymorth i'r cymunedau hynny lle mae pobl ifainc mewn perygl posib o droseddu drwy'r cyfleoedd a gynigir gan waith ieuenctid.

Dylid seilio penderfyniadau o'r fath ar ymchwil a gefnogir gan amrediad o ystadegau a gwybodaeth arall sy'n berthnasol i bobl ifainc, ac arolwg o wasanaethau ar gyfer pobl ifainc.

8.3 Dylai gwasanaethau ar gyfer pobl ifainc fabwysiadu'r nodweddion canlynol:

(i) Dylid eu seilio ar setiau o fwriadau ac amcanion a ddiffiniwyd yn glir a dylent gael eu cysylltu â chynlluniau gwaith blynyddol gyda ffordd o fonitro'r drefn o gyflwyno'r gwasanaeth a gwerthuso ei effeithiolrwydd.

(ii) Dylid cael digon o adnoddau i ddarparu ar gyfer proses ddwys, hir-dymor. Os yw Gwaith Ieuenctid yn mynd i un ai gwella neu newid agwedd a chymhelliant pobl ifanc, yna mae'n rhaid i ni ymrwymo mewn modd cynaladwy a dwys, o ran y ddarpariaeth sydd ar gael i bobl ifanc bob wythnos.

(iii) Rhaid iddynt gynnig sialens a bod yn addysgiadol. Sialens yn yr ystyr y dylai gweithgareddau fod yn ddeniadol i bobl ifainc a chynnal eu sylw ac yn addysgiadol yn yr ystyr bod pobl ifainc yn medru meithrin y sgiliau, y wybodaeth a'r gwerthoedd personol i'w galluogi i reoli eu bywydau eu hunain.

(iv) Rhaid iddynt gynnwys pobl ifainc wrth gynllunio a rheoli mentrau a dylai datblygu'r gwasanaeth weithio tuag at y nod hwn.

(v) Dylai darparwyr fonitro'r amrywiaeth o wasanaethau sydd ar gael i bobl ifanc a sut mae cael gafael ar y gwasanaethau hyn.

8.4 Dylai awdurdodau lleol sefydlu grwp sawl-asiantaeth er mwyn datblygu polisiau integredig sy'n mynd i'r afael ag anghenion pobl ifanc. Dylai'r grwp hwn gynnwys craidd canolog o uwch swyddogion y gwasanaethau hynny sy'n effeithio ar fywydau pobl ifanc, a dylai'r grwp gynnwys pobl ifanc. Er enghraifft y Gwasanaeth Ieuenctid, Gwasanaethau Cymdeithasol, Diogelwch yn y Gymuned, Tai, Hamdden, Iechyd, y Gwasanaeth Prawf, Addysg, yr Heddlu a'r sector gwirfoddol.

8.4.1 Dylid hefyd ystyried sut y gellir dwyn ynghyd y gwasanaethau a'r sefydliadau hynny nad ydynt o fewn y craidd canolog, er mwyn mynd i'r

afael ag anghenion pobl ifanc.

8.5 Byddai grwpiau aml-asiantaethol yn argymell polisi i’r pwyllgorau priodol.

## 9.0 GWAITH AML-ASIANTAETHOL

9.1 Er mwyn datblygu’r argymhellion hyn, cynigiwn y syniadau canlynol:

9.2 Mae tair elfen ganolog ynghlwm wrth gyflwyno gwasanaethau i bobl ifainc yn effeithiol :

- Datganiad polisi corfforaethol cryf.
- Modd o rymuso cymunedau lleol.
- Peirianwaith ar gyfer gwaith aml-asiantaethol.

9.3 Dylai pob awdurdod lleol sefydlu grwp polisi ieuenctid wedi ei gyfansoddi o uwchswyddogion y gwasanaethau hynny sy’n effeithio ar fywydau pobl ifainc. Byddai’r grwp hwn hefyd yn ceisio canfod ffyrdd i gynnwys pobl ifanc ac i recriwtio cynrychiolwyr o’r sector gwirfoddol ac o unrhyw asiantaethau eraill sy’n gweithio gyda phobl ifanc.

9.4 Rôl y grwp yma fyddai argymell polisi cyffredinol ar gyfer datblygu gwasanaethau ar gyfer pobl ifainc ac annog sefydlu fforymau rhyng-asiantaethol wedi eu seilio ar y cymunedau lleol. Byddai’r fforymau lleol hyn yn rhoi mwy o rym i weithwyr allu gweithredu polisi yn y cyd-destun lleol er mwyn delio â’r materion sy’n effeithio ar ansawdd bywyd pobl ifainc.

9.4.1 Byddai’r polisi corfforaethol hwn hefyd yn llunio llinellau cyfrifoldeb ac yn galluogi fforymau lleol i baratoi rhaglenni gwaith a chyflwyno canlyniadau monitro ac arfarnu.

9.4.2 Dylai’r fframwaith hwn sicrhau fod canlyniadau prosesau arfarnu a monitro yn dylanwadu ar ddatblygiad polisi corfforaethol.

9.5 Byddai angen i fforymau rhyng-asiantaethol fynd i’r afael â’r materion canlynol er mwyn bod yn llwyddiannus:

- Dylai asiantaethau arddangos eu hymrwymiad i’r dulliau gweithredu drwy sicrhau cynrychiolaeth a mynychu rheolaidd ar lefel ddigon uchel i allu ymrwymo adnoddau.

- Rhaid i’r gymuned leol a phobl ifainc gadw mewn cysylltiad agos â’r consortiwm.

- Dylai’r holl asiantaethau sy’n gysylltiedig chwarae rhan weithredol a gweithio mewn consortia â’i gilydd.

- Dylai consortiwm sefydlu hunaniaeth a phwrpas clir trwy gytuno ar

ddatganiad ar y cyd ynglyn ag amcanion ac er mwyn i bob un o'r asiantaethau unigol sy'n cymryd rhan ddeall y cyfraniad y byddant yn ei wneud i'r dull gweithredu ar y cyd. Dylai ymchwil ac ymgynghoriad fod yn sail i broses wneud penderfyniadau consortiwm.

- Dylai grwpiau aml-asiantaethol baratoi cynlluniau strategol sy'n amlinellu eu meysydd gweithgaredd arfaethedig ar sail blynyddol. Yn ogystal, dylent ddyfeisio fframweithiau er mwyn monitro ac arfarnu fframweithiau a fydd yn pennu meini prawf i'w defnyddio wrth gasglu gwybodaeth.

- Dylai consortiwm geisio rhannu adnoddau: cyllid, staff, offer. Mae'n bosib y gall consortiwm geisio cytundebau ar lefel y gwasanaeth gyda phob un o'r asiantaethau a fo'n cymryd rhan, sy'n ymwneud â rôl a chyfraniad pob asiantaeth yn y consortiwm; yr adnoddau y bydd asiantaethau'n eu haddo i'r consortiwm a disgwyliadau pob asiantaeth ynglyn â beth fydd y consortiwm yn ei gyflawni ar eu rhan.

- Dylid sefydlu a gwasanaethu pwyllgor consortiwm gan gydlynydd â'r gorchwyl o hwyluso cyfranogiad a chydlynu gweithgareddau. Gall hwn fod yn benodiad a gyllidir ar y cyd gan yr holl asiantaethau sy'n cymryd rhan neu gan asiantaeth unigol fel rhan o'i ymrwymiad i'r cynllun. Yn yr achos yma, dylai'r Cydlynydd gael hawl gan y cyflogwr i ymwneud â'r gwaith fel rhan arferol o'i ddyletswyddau, yn hytrach nag yn ychwanegol atynt.

## 10.0 TARGEDU GWAITH IEUENCTID

10.1 Nodweddir gwaith ieuenctid cynaledig yng Nghymru gan ddibyniaeth ar rwydweithiau o glybiau ieuenctid fel y prif ddull o gyflwyno gwaith ieuenctid. Gwelwyd bod gwaith allanol a gwaith gwahanedig yn effeithiol iawn wrth dargedu pobl ifainc mewn angen, a'u cynnwys mewn proses sy'n addysgiadol ac yn cynnig sialens (gweler Coopers and Lybrand).

10.2 Argymhellir bod awdurdodau lleol yn datblygu ystod dda o wasanaethau yn canolbwyntio ar bobl ifainc rhwng 13 a 19 oed, sy'n cynnwys:

- Gwaith clwb
- Gwaith gwahanedig
- Gwaith maes

## 11.0 CYNNWYS POBL IFANC

11.1 Rhydd y dogfen hon bwyslais mawr ar gynnwys pobl ifanc wrth ddatblygu gwasanaethau. Mae ar bobl ifanc angen gwasanaethau sy'n mynd i'r afael â'u gofynion ac sy'n berthnasol i gyd-destun eu bywyd bob dydd. Felly, dylai awdurdodau lleol geisio canfod ffyrdd i gynnwys pobl ifanc wrth ddatblygu gwasanaethau.

11.2 Gellir cynnwys pobl ifanc mewn nifer o ffyrdd, gan gynnwys:

11.3 Ymchwil Marchnad: Cynnal arolwg o bobl ifanc er mwyn pennu anghenion a strategaethau o fewn awdurdodau unedol a lleol. Bu ymchwil marchnad yn fwyaf effeithiol pan arddelwyd agweddau distrwythur gyda phobl ifanc er mwyn ceisio'u barn a'u hagweddau. Ni ddylid defnyddio holiaduron a dulliau meintiol eraill ar eu pennau eu hunain.

Mae gan bobl ifanc lawer iawn i'w gynnig i'r broses o ymchwilio i'r farchnad, nid yn unig fel cyfranogwyr, ond hefyd fel gweithwyr a gyflogir i gynnal ymchwil.

11.4 Fforymau Ieuenctid: Mae nifer o awdurdodau lleol wedi rhoi cefnogaeth i sefydlu cyngor neu fforwm ieuenctid yn eu hardaloedd. Gall fforymau o'r fath leisio barn am ddatblygu gwasanaethau a chwarae rôl ragweithiol i sicrhau fod gwasanaethau yn berthnasol i bobl ifanc ac ar gael iddynt.

Dylai awdurdodau lleol roi ystyriaeth deg i sefydlu fforymau ieuenctid er mwyn sicrhau sylfaen eang o gynrychiolaeth.

11.5 Grwpiau Materion/Diddordebau arbennig: Mae gan bobl ifanc amrywiaeth o ddiddordebau ac maent yn ymwneud ag amrywiaeth o faterion sy'n gysylltiedig â nhw. Y ffordd orau i'r awdurdodau lleol gefnogi'r gweithgareddau hyn efallai fyddai drwy iddynt roi arian ac adnoddau a fyddai'n galluogi pobl ifanc i ddatblygu gweithgareddau neu i fynd i'r afael â materion eu hunain.

Byddai cynlluniau o'r fath yn harneisio potensial creadigol pobl ifanc a rhoi iddynt y cyfrifoldeb i wneud penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywydau.

11.6 Hyfforddiant: Mae llawer o awdurdodau lleol yng Nghymru wedi cefnogi cynlluniau hyfforddi sy'n galluogi pobl ifanc i ganfod materion o bwys a datblygu'r sgiliau, y wybodaeth a'r nodweddion personol sydd eu hangen i fynd i'r afael â nhw. Ymhlith y cynlluniau hyn roedd cynadleddau, gweithdai, cyrsiau hyfforddi a phrofiadau preswyl.

11.7 Ni ddylid ystyried yr enghreifftiau hyn ar wahân. Yn aml, maent yn ategol ac yn gwbl hanfodol i'w gilydd. Er enghraifft, gallai ymchwil marchnad ganfod yr angen am sefydlu grwp materion neu ddiddordebau arbennig, neu fod angen hyfforddiant er mwyn sefydlu fforwm ieuenctid. Tra bod yr enghreifftiau hyn yn cynrychioli arferion a ddatblygwyd mewn rhai mannau, nid dyma'r unig ffordd ymlaen. Dylai

awdurdodau lleol fynd i'r afael â'r mater o gynnwys pobl ifanc gyda meddwl agored er mwyn sicrhau na fydd unrhyw syniadau rhagdybiedig yn penderfynu'r canlyniadau terfynol. Mae agwedd sy'n dibynnu'n llwyr ar wrando ar bobl ifanc ac ymateb iddynt yn fwy tebygol o hyrwyddo amrywiaeth o ffyrdd i gael bobl ifanc i ymrwymo, i ennyn eu diddordeb, ac i'w cynnwys wrth gyflwyno gwasanaethau.

## LLYFRYDDIAETH


Crime Concern (1992) **Tackling Youth Crime - A Practical Guide**

Crime Concern (1993), **Youth Crime Prevention - A Framework for Local Action**

NACRO (1992), **Nowhere to Go - Nothing to Do: A Practical Guide to Tackling Youth Crime and Disaffection in the Community.**

Coopers and Lybrand (1994), **Preventative Strategy for Young People in Trouble**

Rutherford. A, (1992), **Growing Out of Crime - The New Era**